# *Addysgu y Tu Hwnt i'r Ffiniau: Fframwaith Cysyniadol ac Athroniaeth Ddysgu'r Rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon Arloesol yng Nghymru*

YR ATHRO MALCOLM THOMAS[1], BARRY REES[2], GARETH EMYR EVANS[3], NICOLA THOMAS[4], CLIVE WILLIAMS[5], BERIAN LEWIS[6], DARYL PHILLIPS[7], ALLYSON HAND[4], SIÂN BOWEN[2], DR ANDREW DAVIES[1], PRYSOR MASON DAVIES[1], DR SUSAN CHAPMAN[1], MIKE REED[8] A MANON LEWIS[1]
*[1]Prifysgol Aberystwyth, [2]Cyngor Sir Ceredigion, [3]Ysgol Bro Teifi, [4]Ysgol Uwchradd Crug Hywel, [5]Yr Ysgol Gymraeg Aberystwyth, [6]Ysgol Plascrug, [7]Ysgol Uwchradd y Trallwng, [8] Ysgol Uwchradd Aberteifi*

CRYNODEB

Mae'r papur hwn yn amlinellu datblygiad un rhaglen AGA integredig sy'n arwain at ddau lwybr SAC: Tystysgrif Addysg i Raddedigion Cynradd gyda Chyfoethogi Uwchradd; a Thystysgrif Addysg i Raddedigion Uwchradd gyda Chyfoethogi Cynradd. Mae rhaglen AGA integredig Dysgu Aber+ yn galluogi athrawon i 'addysgu y tu hwnt i'r ffiniau ar gyfer profiad cyfannol'. Mae'r papur yn adolygu fframwaith cysyniadol y rhaglen a'i hathroniaeth ddysgu ac wrth wneud hynny mae'n ystyried yr egwyddorion craidd a ddylanwadodd ar gynllun y rhaglen, fel a ganlyn: Partneriaeth Gynhwysol; Addysgeg Effeithiol; Addysgeg Integredig; Addysgeg Arbenigol ac wedi'i Chyfoethogi; Addysgeg a Rennir ac Adfyfyriol; Diwylliant Ymchwil Gwirioneddol Gydweithredol, Atebolrwydd Democrataidd ac wyth egwyddor yr Athroniaeth Ddysgu. Mae'r papur yn mynd ymlaen i esbonio sut mae'r rhaglen integredig yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng dull hwb clwstwr ar draws 5 rhanbarth hwb yng Nghanolbarth Cymru. Wrth wneud hyn, mae'n amlinellu rôl staff y

*https://doi.org/10.16922/wje.22.1.6*

Brifysgol a Phrif fentoriaid a mentoriaid Ysgolion Partner yn ogystal ag isafswm y gofynion ar gyfer athrawon dan hyfforddiant tra'u bod ar brofiad yn yr ysgol. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i ddarpariaeth a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â rôl ganolog ymchwil o fewn y Bartneriaeth AGA gyfan. Mae'r papur yn cloi drwy ystyried beth sy'n arloesol am y rhaglen a'r manteision sy'n dod i'r athrawon dan hyfforddiant wrth ddilyn y rhaglen.

**Geiriau allweddol:** Addysgu y tu hwnt i Ffiniau, addysg gychwynnol i athrawon, arloesedd, Cymru

*Cyflwyniad*

Mae gan Brifysgol Aberystwyth draddodiad hir o addysgu a hyfforddi athrawon yng Nghymru. Fel disgyblaeth, cychwynnodd 'Addysg' ym mis Medi 1892 yn dilyn agor Coleg Hyfforddi Dydd Aberystwyth ac mae'r brifysgol wedi bod ar flaen y gad sawl tro, o fod y brifysgol gyntaf i benodi Cadair Prifysgol mewn Addysg yng Nghymru a Lloegr ym 1893, yn ogystal â bod y cyntaf i benodi darlithydd Addysg cyfrwng Cymraeg ym 1958. Drwy gydol ei hanes, mae meysydd dwyieithrwydd, addysgu cyfrwng Cymraeg, hanes addysg ac addysg wledig wedi bod yn amlwg iawn.

Yn ei ragair i'w lyfr *Fit To Educate?* (1992) a oedd yn dathlu canmlwyddiant Adran Addysg Aberystwyth, ysgrifennodd Dr Gareth Evans y gallai 'hyfforddi athrawon fod yn wynebu ei newid mwyaf arwyddocaol mewn can mlynedd' (Evans, 1992: ix). Roedd yn cyfeirio yma at y newidiadau radical a gafodd eu cyflwyno gan Kenneth Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth ym 1992 a oedd yn gofyn bod yr holl Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys partneriaethau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion. Roedd Cylchlythyr 9/92 yr Adran Addysg (DFE, 1992) yn gosod allan y meini prawf a'r gweithdrefnau newydd ar gyfer achredu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon a oedd yn gofyn i Sefydliadau Addysg Uwch gyflwyno eu cynlluniau datblygu i'r Cyngor Achredu Addysg Athrawon (CATE) ar gyfer achredu'r sefydliad. Golygai hyn hefyd fod gofyn i fyfyrwyr dreulio mwy o amser ar ymarfer dysgu mewn ysgolion gyda phwyslais yn cael ei osod ar 'gymwyseddau addysgu', a'r gofyniad i ysgolion



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 115 14/05/2020 13:57

weithio mewn partneriaeth gyda SAU. Ar ben hyn, cafodd gweithdrefnau eu sefydlu ar gyfer Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi i Loegr ac i Gymru (OHMCI) i gyflenwi gwaith CATE yn craffu ar gynlluniau datblygu, yn ogystal â chynnal arolygiadau o sefydliadau mewn ymgynghoriad â'r Adran Addysg (DFE), Adran Addysg y Swyddfa Gymreig (AASG), CATE a'r Cynghorau Cyllido Addysg Uwch.

O na byddai Gareth Evans wedi gallu gweld i'r dyfodol, gan fod y gweithdrefnau presennol ar gyfer prosesau achredu a monitro yn cynnwys egwyddorion a disgwyliadau sylfaenol tebyg iawn. Fodd bynnag, mae yna rai gwahaniaethau allweddol rhwng y cyfnodau hyn. Yn gyntaf, roedd gweithio mewn partneriaeth ym 1992 ac wedi hynny yn berthynas digon arwynebol gan fod Sefydliadau Addysg Uwch wedi parhau i gadw'r brif rôl atebolrwydd, lle mae'r meini prawf achredu presennol yn mynnu bod y 'SAU a'r ysgolion partner arweiniol yn rhannu'r dasg o ddatblygu rhaglenni, gan gynnwys rhannu atebolrwydd' (Llywodraeth Cymru, 2017: 13) sy'n dynodi symudiad tuag at berthynas atebolrwydd mwy democrataidd. (Cochran-Smith *et al.*, 2018). Yn ail, yn unol â phrif egwyddorion CATE ym 1992, dim ond sefydliadau, yn hytrach na chyrsiau unigol, a oedd wedi eu hachredu ar gyfer HCA, lle mae'r broses achredu bresennol ond yn achredu rhaglenni unigol Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA).

Nod yr erthygl hon yw disgrifio ac amlinellu datblygiad rhaglen AGA integredig Dysgu Aber+ (gweler Ffigur 1) fel y cafodd ei chyd-lunio gan dîm o ymarferwyr o ysgolion, Cyngor Sir Ceredigion a Phrifysgol Aberystwyth.

Fel y dywedodd yr Athro Foster Watson[1] ym 1907 yn ei ohebiaeth at Brifathro Prifysgol Aberystwyth, roedd yn ddiysgog yn ei ddelfrydau:

> These have been concerned with the creation of an atmosphere in which a University trained teacher should take his place on an equality, side by side, with the University trained physician, lawyer and clergyman – and that the way should be found for breaking down the barrier between the primary and the secondary teacher. (Evans, 1992: 76)

**Ffigur 1**

ABER Addysgu+
Athrawon Tu Hwnt i'r Ffiniau
*Teachers Beyond Boundaries*

ABER teach+
Teachers Beyond Boundaries
*Athrawon Tu Hwnt i'r Ffiniau*



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 116 14/05/2020 13:57

Mae'n bleser gennym adrodd fod ei weledigaeth bellach wedi ei gwireddu yn ein rhaglen AGA newydd sy'n galluogi athrawon dan hyfforddiant i 'addysgu y tu hwnt i'r ffiniau er mwyn cael profiad sy'n cwmpasu'r cynradd a'r uwchradd'.

*Trosolwg o Bartneriaeth a Rhaglen AGA, a pham Arloesi*

Mae chwe hwb clwstwr ysgolion wedi cael y cyfrifoldeb o ddarparu Partneriaeth a Rhaglen AGA Aberystwyth ar draws pum rhanbarth hwb clwstwr. Ym mhob hwb clwstwr bydd un Ysgol Bartner Arweiniol ar gyfer bob pymtheg o athrawon dan hyfforddiant. Bydd yr Ysgol Bartner Arweiniol yn atebol am safonau, sicrhau ansawdd, datblygu mentoriaid a dysgu proffesiynol ar gyfer y clwstwr ysgolion y bydd yn eu goruchwylio. Bydd y rhaglen gynradd ac uwchradd integredig yn golygu y bydd athrawon dan hyfforddiant yn cael profiad o addysgu ar draws cyfnodau. Wrth wneud hyn, bydd y rhaglen gyffredin Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) yn arwain at ddau lwybr Statws Athro Cymwysedig (SAC): TAR Cynradd gyda Chyfoethogi Uwchradd, a TAR Uwchradd gyda Chyfoethogi Cynradd.

Gyda'r traddodiad hirhoedlog yn y DU lle mae hyfforddiant cynradd ac uwchradd yn digwydd fel rhaglenni TAR annibynnol, fe welwn ein rhaglen gynradd ac uwchradd integredig yn unigryw ac arloesol gan ei bod yn ail-gysyniadu sut dylai athrawon dan hyfforddiant gael eu hyfforddi heddiw. Er mai dyma'r rhaglen TAR gyntaf i gael strwythur 'dilyniannol' yn y DU, ar un adeg roedd yn beth arferol yn y ddarpariaeth B.Add a oedd yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu arbenigeddau iau/uwchradd. Bydd athrawon dan hyfforddiant sy'n dilyn ein rhaglen integredig wedi eu paratoi'n well gyda'r sgiliau a'r profiad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac i fedru gwneud hynny ar draws cyfnodau a sectorau, gan arwain at weithlu mwy hyblyg. Ar ben hyn, mae'r rhaglen AGA integredig yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg ac felly bydd yn hyrwyddo profiadau dwyieithog pob athro dan hyfforddiant. Fel disgwyliad sylfaenol o'r rhaglen AGA bydd disgwyl i bob athro dan hyfforddiant ddatblygu'n gynyddol iaith Gymraeg bob-dydd y dysgwyr. Mae hyn yn cyd-fynd â'r galw am athrawon cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yng nghanolbarth Cymru a bydd yn cyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn olaf, wrth sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael mynediad at amrediad eang o



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 117 14/05/2020 13:57

brofiadau ar leoliad addysgu, mae'r Bartneriaeth AGA wedi nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer profiadau myfyrwyr ar leoliad er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws clystyrau ac ysgolion partner. Mae'r disgwyliadau hyn wedi cael eu nodi mewn perthynas â'r pedwar maes o brofiad addysgu craidd, profiad proffesiynol ehangach, mentora, a chyswllt gyda staff y Brifysgol ac arsylwi ganddynt.

### *Fframwaith cysyniadol Partneriaeth a Rhaglen AGA*

Yn yr adran hon, rydym yn ystyried yr egwyddorion craidd a ddylanwadodd ar gynllun y rhaglen. Dyma'r egwyddorion craidd hynny: Partneriaeth Gynhwysol; Addysgeg Effeithiol; Addysgeg Integredig; Addysgeg Arbenigol ac wedi'i Chyfoethogi; Addysgeg a Rennir ac Adfyfyriol; Diwylliant Ymchwil Gwirioneddol Gydweithredol, ac Atebolrwydd Democrataidd.

#### *Partneriaeth Gynhwysol*

Er mwyn i Bartneriaeth AGA Aberystwyth (Aber) fod yn effeithiol yn darparu rhaglen sy'n llwyddiannus, ystyriwn mai'r egwyddor hon yw'r egwyddor graidd gynhwysfawr. Mae'n tynnu ar ymchwil Thomas *et al.* (2009) ac ymchwil Cann *et al.* (2013) er mwyn rhoi ar waith yr elfennau o weithio mewn partneriaeth a fydd yn cyfrannu tuag at ei heffeithiolrwydd. Mae'r heriau a ganfyddir yn cynnwys dod o hyd i bartneriaid priodol; goblygiadau cyfraniad anghymesurol o adnoddau; cysondeb cynrychiolaeth partneriaid; yr amser a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyfarfodydd partneriaeth; atebolrwydd; cydraddoldeb mynediad at ddarpariaeth o ansawdd da; a chynaliadwyedd partneriaethau gyda chyllid am gyfnod cyfyngedig, ac wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r gwerthoedd gweithio mewn partneriaeth canlynol:

- Gwell effeithlonrwydd – mae gweithio mewn partneriaeth yn caniatáu am ddull integredig gydag aelodau o'r bartneriaeth i gyd yn cyfrannu eu harbenigedd eu hunain. *Yn achos Partneriaeth AGA Aber, mae aelodau o'r pwyllgor gwaith o AALl Ceredigion, ysgolion Cynradd, Uwchradd a Phob Oed wedi cyfrannu at gyd-adeiladu gwerthoedd, egwyddorion a rhaglen AGA y bartneriaeth;*
- Tegwch – mae gweithio mewn partneriaeth yn darparu strwythur ar



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 118 14/05/2020 13:57

gyfer cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ac mae'n caniatáu i gymunedau lleol (ysgolion /AALlau) gael eu cynrychioli'n gyfartal. *Yn achos Partneriaeth AGA Aber, bu atebolrwydd cyffredin, gyda chyfarfodydd y pwyllgor gwaith yn cael eu cyd-gadeirio rhwng y Brifysgol a'r Ysgolion Partner. Mae wedi arwain ymhellach at strwythurau llywodraethiant cyffredin ar bob lefel o weithgaredd y rhaglen;*

- Effeithiolrwydd – Mae gweithio mewn partneriaeth yn cyfoethogi dealltwriaeth, yn creu ymddiriedaeth ac yn cynyddu cydgyfrannu adnoddau a sgiliau. *Yn achos Partneriaeth AGA Aber, cafodd cynlluniau gwaith eu dosbarthu'n gyfartal rhwng aelodau o'r pwyllgor gwaith. Mae hyn wedi hwyluso cyd-adeiladu ac wedi arwain at berchenogaeth gyffredin o'r Bartneriaeth AGA a'i rhaglen ac wedi galluogi'r bartneriaeth i dynnu ar arbenigedd a mewn-welediad o amrywiaeth o wahanol gyd-destunau;*
- Dewis – Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella'r dewis sydd ar gael i'r athro dan hyfforddiant. *Yn achos Partneriaeth AGA Aber, bydd cynllunio rhaglen Integredig Gynradd ac Uwchradd yn arwain at fwy o gyfoethogi profiadau ar gyfer yr athro dan hyfforddiant.* (Addaswyd o Cann *et al.,* 2013).

Mae cymhwyso'r gwerthoedd hyn wedi arwain at weithio mewn partneriaeth 'ddwfn a gwirioneddol' sy'n sylfaen i'r elfennau canlynol o weithio mewn partneriaeth: datblygiad cychwynnol partneriaeth a rhaglen; strwythur atebolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth; cyflwyno rhaglenni; cefnogaeth leol a roddir i hybiau clwstwr ysgolion partner; rolau staff y bartneriaeth – y brifysgol ac ysgolion; monitro perfformiad ac atebolrwydd; ymchwil a dysgu proffesiynol; a marchnata a recriwtio.


Mae'r holl elfennau uchod yn arwain at 'bartneriaeth gynhwysol' sy'n golygu lle bynnag y mae lleoliad yr hybiau clwstwr ysgolion partner (gweler Ffigur 2) bydd y Brifysgol yn cael ei gweld yn gweithredu'n lleol o fewn pob cymuned clwstwr.

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy glustnodi tiwtoriaid profiad ysgol i weithio gydag athrawon dan hyfforddiant cynradd ac uwchradd, ochr yn ochr â mentoriaid ysgolion partner ar draws cymuned clwstwr. Mae'r dull hwn yn mynd i'r afael â heriau gwledigrwydd a'r pellter rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a'r Brifysgol. *Yn achos Partneriaeth AGA Aber, mae'n hanfodol fod cynnwys ysgolion gwledig yn ganolog i ddarpariaeth y rhaglen AGA*. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn profi'r arferion gorau ar draws amrywiaeth o leoliadau ysgol. Yn eu tro, bydd aelodau o gymuned y clwstwr yn cyfrannu i gyflwyno darpariaeth y rhaglen o fewn y brifysgol.



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 119 14/05/2020 13:57

**Ffigur 2**




Bydd y 'bartneriaeth gynhwysol' hon rhwng y brifysgol a chlystyrau ysgolion yn llywio ymarfer yn y ddau leoliad (Conroy *et al.*, 2013).

Mae gwerthoedd ac agweddau'r egwyddor graidd gynhwysfawr ar bartneriaeth gynhwysol yn gweithredu fel sbardun ar gyfer yr egwyddorion dysgu addysgegol, ymchwil a phroffesiynol o'r fframwaith cysyniadol fel a ganlyn.

*Addysgeg Effeithiol*

Mae athroniaeth y rhaglen yn canolbwyntio ar addysgeg effeithiol, mewn geiriau eraill, beth sy'n gwneud athro effeithiol? Ein nod yw bod athrawon dan hyfforddiant yn gweld eu hunain fel athrawon gyntaf ac fel arbenigwyr pwnc neu oedran yn ail. Bydd y pwyslais yn cael ei roi ar bwysigrwydd



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 120 14/05/2020 13:57

deall sut mae athrawon yn hyrwyddo dysgu llwyddiannus, fel sy'n cael ei argymell gan lawer o ymchwilwyr yn y maes (James a Pollard, 2012; James a Pollard, 2011; Nind a Lewthwaite, 2015; Siraj *et al*., 2014). Wrth wneud hyn bydd y rhaglen yn tynnu ar enghreifftiau o arfer gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol mewn perthynas â dysgu ac addysgu.


*Addysgeg Integredig*

Gyda natur newid mawr mewn addysg a'r symud tuag at gwricwlwm mwy arloesol ac integredig 3–16 yng Nghymru mae angen cael agwedd newydd a mwy creadigol tuag at Addysg Gychwynnol i Athrawon. Bydd angen dealltwriaeth ddyfnach ar athrawon dan hyfforddiant o sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu ar draws oedrannau. O ganlyniad, athroniaeth y rhaglen yw addysgu a datblygu athrawon dan hyfforddiant i addysgu ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd fel yr hysbyswyd gan ymchwilwyr eraill yn y maes (Wellcome Trust, 2009; Sutherland *et al*., 2010). Mae'r athroniaeth hon (gweler Ffigur 3) yn cyd-fynd â dyfodiad ysgolion Pob Oed nid yn unig mewn awdurdodau gwledig ond hefyd mewn ardaloedd trefol. Mae'r athroniaeth integredig hefyd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru 2022 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod athrawon dan hyfforddiant yn datblygu dysgu trawsgwricwlaidd.

Bydd yr athroniaeth integredig yn galluogi'r canlynol i athrawon dan hyfforddiant:

- i ddod yn fwy hyderus a gwybodus mewn perthynas â'r continwwm o'r cynradd i'r uwchradd er mwyn iddynt ddeall yn well o ble mae dysgwyr wedi dod ac i ble y byddant yn mynd;

**Ffigur 3**






06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 121 14/05/2020 13:57

- deall, dethol a rhoi ar waith y dulliau addysgegol mwyaf addas ar gyfer y cyfnod cynradd ac uwchradd perthnasol;
- arsylwi, gwerthuso a rhannu profiadau addysgegol gyda chymheiriaid, tiwtoriaid profiad ysgol a mentoriaid ar draws y cynradd a'r uwchradd;
- bod yn fwy parod ar gyfer y pontio rhwng cyfnodau allweddol yn ogystal ag o'r sector cynradd i'r uwchradd;
- bod mewn sefyllfa well i weld sut mae dysgwyr yn caffael sgiliau allweddol: llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r iaith Gymraeg;
- deall sut mae dysgwyr yn dysgu ar draws oedrannau a bod wedi eu harfogi'n well i ddewis dulliau asesu priodol;
- bod yn fwy parod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd sydd ar ddod;
- dod yn fwy cyflogadwy gan y bydd ganddynt ddealltwriaeth addysgegol ehangach o'r sectorau cynradd ac uwchradd, ac felly byddant yn arbennig o addas ar gyfer Ysgolion Pob Oed;
- bod yn hyblyg er mwyn iddynt allu addasu i unrhyw sefyllfa addysgu ar ôl ennill SAC.

  (Yn seiliedig ar ymatebion i holiadur ar-lein, Mehefin 2017).

*Addysgeg Arbenigol ac wedi'i Chyfoethogi*

Mae addysgeg arbenigol ac wedi'i chyfoethogi hollgynhwysfawr y rhaglen wedi cael ei llywio gan y gofyniad i fodloni'r meini prawf ar gyfer achredu allanol (Llywodraeth Cymru, 2017), sy'n sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn gyfarwydd â'r chwe maes dysgu a phrofiad ac amcanion y cwricwlwm newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2017: 22–3) a'u bod hefyd yn derbyn y gefnogaeth briodol o ran cynnwys i'r pwnc a'r addysgeg ar gyfer eu cyfnod oedran ac arbenigedd pwnc o'u dewis (ibid., 23). Gyda'r gofyniad achredu hwn yn ogystal â'r angen i gyflwyno'r agwedd gyfoethogi o'r ddarpariaeth, mae'r rhaglen yn disgwyl i bob athro dan hyfforddiant arbenigo mewn elfen 'arbenigedd', 'craidd' a 'chyfoethogi' (gweler Ffigur 4). Bydd llinynnau modiwlaidd y rhaglen yn galluogi athrawon dan hyfforddiant sy'n dewis arbenigo mewn cynradd neu uwchradd i gael eu dysgu gyda'i gilydd yn y brifysgol yn ogystal ag ar leoliad addysgu. Er y bydd y Cwricwlwm drafft i Gymru fel y cafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019) yn arwain at gael gwared ar y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol yn y pen draw, rydym ar hyn o bryd yn gweithredu mewn cyfnod pontio rhwng y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n dod i ben a'r Cwricwlwm i Gymru 2022 ac oherwydd hynny rydym wedi cadw'r



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 122 14/05/2020 13:57

**Ffigur 4**

| | Llinyn Arbenigol | Llinyn Craidd | Llinyn Cyfoethogi |
|---|---|---|---|
| | 28 o oriau cyswllt | 14 o oriau cyswllt | 14 o oriau cyswllt<br>5 wythnos o brofiad ysgol |
| | 21 wythnos o brofiad ysgol | | |
| **Athro Uwchradd dan Hyfforddiant** → | **Arbenigedd Pwnc**<br>(28 o oriau cyswllt) | **1 Maes Dysgu CA3**<br>(perthnasol i Abernigedd Pwnc – 14 o oriau cyswllt) | **1 Maes Dysgu CA2**<br>(perthnasol i Abernigedd Pwnc) |
| **Athro Cynradd (CA2) dan Hyfforddiant** → | **Pob Maes dysgu CA2**<br>(28 o oriau cyswllt) | **Pob Maes Dysgu Cyfnod Sylfaen**<br>(14 o oriau cyswllt) | **1 Maes Dysgu CA3**<br>(Maes o'u dewis personol – 14 o oriau cyswllt) |
| **Athro Cynradd (CS) dan Hyfforddiant** → | **Pob Maes Dysgu Cyfnod Sylfaen**<br>(28 o oriau cyswllt) | **Pob Maes Dysgu CA2**<br>(14 o oriau cyswllt) | **1 Maes Dysgu CA3**<br>(Maes o'u dewis personol – 14 o oriau cyswllt) |

defnydd o'r Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol (gweler Ffigur 4) nes bod y cwricwlwm newydd wedi cael ei gyflwyno'n llawn mewn ysgolion.

Yn gyffredinol, bydd yr athroniaeth graidd hon yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i arbenigo yn un o ddau lwybr SAC, naill ai Cynradd gyda Chyfoethogi Uwchradd neu Uwchradd gyda Chyfoethogi Cynradd (gweler Ffigur 3). O ganlyniad, oherwydd y wybodaeth a'r amser yn y cyfnod cyfoethogi, bydd gan athrawon dan hyfforddiant well ddealltwriaeth waith o'r pontio rhwng gwahanol gyfnodau allweddol fydd yn arwain at ddatblygu continwwm di-dor yn y broses ddysgu.

*Addysgeg a Rennir ac Addysgeg Adfyfyriol*

Bydd athrawon dan hyfforddiant Cynradd ac Uwchradd yn derbyn modiwlau craidd cyffredin er mwyn iddynt gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o addysg fel cyfanwaith. Bydd hyn yn galluogi cymheiriaid cynradd ac uwchradd i rannu ac adfyfyrio ar wybodaeth bwnc a fydd yn sylfaen i



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 123 14/05/2020 13:57

feysydd dysgu a phrofiad. Bydd athrawon dan hyfforddiant yn gweithio gyda myfyrwyr eraill o bynciau a chyfnodau gwahanol er mwyn eu paratoi nhw ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd effeithiol mewn ysgolion. Ar leoliadau profiad ysgol, bydd athrawon dan hyfforddiant yn elwa o dri phrofiad ysgol; y cyntaf fydd Profiad Ysgol 1 (Arbenigedd a Chraidd); yr ail fydd Profiad Ysgol 2 (Cyfoethogi); a'r trydydd fydd Arbenigedd a Chraidd. Bydd prif nodweddion cefnogi athrawon dan hyfforddiant ar leoliad, wedi eu llywio a'u haddasu o Fodel Partneriaeth Glasgow (Conroy, Donaldson a Menter, 2014; Conroy *et al.*, 2013; McLean Davies *et al.* 2015), yn cynnwys y 'Model Adfyfyrio Rhanddeiliaid Partneriaeth' fel gofyniad i bob hwb Clwstwr Ysgolion Partneriaeth. Mae hyn yn sicrhau cysondeb yn ansawdd a thegwch y gefnogaeth a roddir i athrawon dan hyfforddiant yn ogystal ag i fentoriaid ysgolion partner a staff ar draws yr holl hybiau clwstwr ysgolion o fewn rhanbarth y Grŵp Partneriaeth AGA. Dyma brif nodweddion y 'Model Adfyfyrio Rhanddeiliaid Partneriaeth':

- Adfyfyrio Grŵp yn yr Ysgol ar Wythnosau Dysgu (Wythnosau Adfyfyrio): bydd Tiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol yn arwain y tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen, a fydd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a siaradwyr. Bydd un Wythnos Adfyfyrio ar gyfer pob lleoliad addysgu (Profiad Ysgol Arbenigol 1, Profiad Cyfoethogi a Phrofiad Ysgol Arbenigol 2) yn cael ei gyflwyno mewn Ysgolion Partner Arweiniol er y gall rhai rhannau o'r rhaglen gael eu cynnal mewn mannau eraill. Bydd pob athro dan hyfforddiant yn y clwstwr yn bresennol;
- Rhaglen Seminarau: Bydd Tiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol yn cynllunio'r rhaglen o seminarau i'w cyflwyno yn Ysgolion Partner Arweiniol yr hybiau clwstwr. Bydd seminarau'n cael eu cynnal yn yr Ysgolion Partner Arweiniol a bydd pob athro dan hyfforddiant yn y clwstwr yn bresennol. Bydd seminarau'n agored i staff y clwstwr ysgolion yn ogystal ag i'r myfyrwyr; bydd staff yn cael eu hannog i gyfranogi yn unol â'u hanghenion dysgu proffesiynol;
- Rhaglen Dysgu Arsylwadau: Mae'r arsylwadau dysgu hyn yn ffocysu ar integreiddio damcaniaeth gydag ymarfer (Conroy *et al.*, 2013). Nid ydynt yn mynegi barn ac yn ystod y rhaglen bydd pob athro dan hyfforddiant yn arsylwi ar wersi ei gymheiriaid ym mhob un o'r tri lleoliad (Profiad Ysgol Arbenigol 1, Profiad Cyfoethogi a Phrofiad Ysgol Arbenigol 2). Bydd yr arsylwadau dysgu hyn yn annog yr athrawon dan hyfforddiant i adfyfyrio ar yr hyn maent wedi'i weld a sut bydd yn effeithio ar eu hymarfer.



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 124 14/05/2020 13:57

*Diwylliant Ymchwil Gwirioneddol Gydweithredol*

Mae'r ethos a'r model cydweithredol yn ymestyn i ymchwil ac mae'n seiliedig ar gyfres o ddisgwyliadau cyffredin mewn perthynas ag ymgysylltiad ag ymchwil ac ymholiad ar bob lefel o weithgaredd o fewn y bartneriaeth. Yr athrawon dan hyfforddiant fydd yn greiddiol i'r model hwn, a gyda chefnogaeth bydd disgwyl iddynt ymgysylltu â dulliau addysgegol wedi eu hysbysu gan ymchwil, tystiolaeth ymchwil, prosesau data ac ymholi yn ystod eu profiad hyfforddi, eu profiadau modiwl yn y Brifysgol a'u gwaith a asesir. Byddant yn cael eu cefnogi gan eu mentoriaid a'u tiwtoriaid cyswllt yn y fenter hon a bydd ganddynt fynediad i gorff ehangach o gefnogaeth ac arbenigedd, o fewn y Brifysgol ac yn y clwstwr Ysgolion.


Wrth geisio datblygu diwylliant o ymchwil ac ymholi, fe wnaethom ystyried yn ofalus yr angen i greu cyfleoedd i staff ar draws y bartneriaeth i gael eu cefnogi a'u cymhwyso i ddod yn 'ddefnyddwyr deallus' ac yn gynhyrchwyr gweithredol o ymchwil (BERA, 2014: 11). Roeddem hefyd yn ystyriol o'r rôl allweddol y bydd ysgolion yn ei chwarae 'o ran galluogi athrawon dan hyfforddiant i addysgu, ymchwilio, myfyrio a gwerthuso' (Llywodraeth Cymru, 2017: 12). Bydd cyfleoedd i gynnal, rhannu a defnyddio yr hyn a welwyd o dystiolaeth ymchwil yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol sy'n berthnasol i ddysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2018b) ac ysgolion fel sefydliadau dysgu (OECD, 2018) yn cael eu mewnosod i weithgareddau drwy'r bartneriaeth gyfan, ar bob lefel: bydd seminarau ymchwil a digwyddiadau'n cael eu cynnal yn yr ysgolion i ddangos ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil ac i feithrin gallu mewn methodolegau ymchwil ac i hwyluso ymgysylltiad â thystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil; bydd ysgolion yn bartneriaid gweithredol mewn gweithgareddau seiliedig ar ymchwil, a byddant yn cymryd rhan lawn yn nodi meysydd o weithgaredd a chonsyrn proffesiynol ar gyfer ymholi, i gyfrannu at yr amcanion cyffredinol o wella ymarfer o fewn ysgolion ac o wella profiadau athrawon dan hyfforddiant.

Mae'r diagram isod (Ffigur 5) yn gynrychioliad 2D o'r perthnasoedd rhwng unigolion/rhanddeiliaid gyda'r athro dan hyfforddiant fel yr elfen graidd. Mae effaith y berthynas hon yn y pen draw yn canolbwyntio ar wella dysgu'r disgyblion. Bydd ymgysylltiad ag ymchwil yn allweddol ar bob lefel ond bydd yn cael ei deilwra i gymryd i ystyriaeth anghenion penodol pob un o'r rhanddeiliaid.



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 125 14/05/2020 13:57

**Ffigur 5**




*Continwwm Dysgu Proffesiynol*

Mae'r bartneriaeth yn gyfle i rannu dysgu proffesiynol gyda phob aelod staff mewn ysgolion partner. Bydd hyn yn dod ar ffurf:

- staff ysgol heb gysylltiad uniongyrchol ag AGA yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn seminarau;
- ysgolion neu'r Brifysgol yn nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin yn y bartneriaeth ac yn datblygu hyfforddiant i fodloni'r angen;
- y Brifysgol yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad sgiliau ymchwil staff mewn ysgolion – gall canlyniadau eu hymchwil wedyn gael eu bwydo i mewn i raglenni hyfforddi;
- fel rhan o'r rhaglen TAR bydd y Brifysgol yn cynnal cynadleddau undydd thematig ar gyfer myfyrwyr, a fyddai'n agored i ysgolion partner – dyma



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 126 14/05/2020 13:57

rai themâu posibl: anghenion dysgu ychwanegol, datblygu ysgrifennu, cymhwysedd digidol ac arweinyddiaeth, ond mae digonedd o gyfleoedd – a bydd y cynadleddau'n pontio'r amrediad o anghenion dysgu proffesiynol yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2018a);

- yr Ysgol Addysg yn cysylltu ag ysgolion partner ac adrannau eraill yn y Brifysgol i gynllunio cyrsiau ar wybodaeth pwnc a chynadleddau i athrawon i loywi eu gwybodaeth pwnc ac i ymgysylltu â meysydd eraill o ymchwil ac ymholi.

*Atebolrwydd Democrataidd*

Yn gynharach yn y papur hwn, fe wnaethom ni bwysleisio pwysigrwydd 'partneriaeth gynhwysol' fel yr egwyddor gynhwysfawr ar gyfer cael partneriaeth lwyddiannus. Yn ganolog i hyn mae'r cysyniad o atebolrwydd, yn enwedig lle mae locws atebolrwydd yn gorwedd rhywle rhwng rhanddeiliaid y bartneriaeth. Er gwaethaf sefydlu'r model partneriaeth ym 1992 gyda'r dyhead o gael partneriaethau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion (DFE, 1992), mae cydbwysedd y berthynas wedi aros yn weddol statig yn nhermau dosrannu atebolrwydd o fewn y partneriaethau hyn, gyda'r Sefydliadau Addysg Uwch ar y cyfan yn cymryd y rôl arweiniol fel oedd yn wir gyda system flaenorol y Canolfannau Addysg Athrawon. Mae'n rhaid i'r sefyllfa hon newid os yw partneriaethau AGA yn y dyfodol yn mynd i fod yn effeithiol wrth bennu newid ar lefel genedlaethol. Mae Cochran-Smith *et al.* (2018) wrth edrych ar y perthnasoedd grym yn yr agwedd ddemocrataidd tuag at atebolrwydd mewn addysg athrawon yn gweld 'cyfrifoldeb proffesiynol deallus':

> … as a key part of our larger proposal for reclaiming accountability in teacher education. We intend intelligent professional responsibility to be an umbrella term signalling that democratic accountability in teacher education is grounded in trust of the profession, builds on professionals' knowledge and collective commitments to local and larger goals, and yields useful and usable information concerning program improvement. To do so, there is balance and equality of power across stakeholders, who jointly determine accountability mechanisms, processes, and content through rational consideration of individual and common interests. All of this is based on development of a generative and reciprocal relationship between internal and external accountability. (Cochran-Smith *et al.*, 2018: 167)

Mae Cochran-Smith *et al.* (2018) ymhellach yn gweld atebolrwydd democrataidd yn fwy na dim ond adlinio locws atebolrwydd rhwng



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 127 14/05/2020 13:57

**Tabl 1: Mapio Partneriaeth a Rhaglen AGA yn erbyn Agweddau ar Atebolrwydd Democrataidd mewn Addysg Athrawon**

| *Themâu* | *Disgrifiad Agwedd* | *Partneriaeth a Rhaglen AGA Aberystwyth* |
|---|---|---|
| Sylfeini Atebolrwydd | Gweledigaeth a rennir er budd pawb | • Fel partneriaeth, ein nod yw denu a chadw'r athrawon gorau ar gyfer ein hysgolion yn rhanbarth canolbarth Cymru, yn ogystal â datblygu a chefnogi ymarferwyr dwyieithog.<br>• Mae'r rhaglen yn datblygu athrawon dan hyfforddiant i addysgu ar draws cyfnodau mewn gwahanol leoliadau ysgol.<br>• Mae cydweithrediad i hyrwyddo gwella addysgu a dysgu o ansawdd uchel ledled canolbarth Cymru. |
| | Democratiaeth | • Mae'r systemau monitro ac adrodd ar atebolrwydd yn sicrhau bod gwneud penderfyniadau a synnwyr cadarn o atebolrwydd mewnol yn cael eu hyrwyddo. Bydd hyd a lled democratiaeth yn esblygu wrth i'r rhaglen AGA fwrw gwreiddiau. |
| | Cydraddoldeb | • Mae cynlluniau gwaith yn cael eu datblygu'n gyfartal ymhlith aelodau'r grŵp partneriaeth. Mae hyn wedi hwyluso cyd-adeiladu ac wedi arwain at berchenogaeth gyffredin o'r Bartneriaeth AGA a'i rhaglen ac wedi galluogi'r bartneriaeth i dynnu ar arbenigedd a mewnwelediad o amrywiaeth o wahanol gyd-destunau.<br>• Gan fod y rhaglen AGA yn rhaglen gynradd ac uwchradd integredig, mae cydraddoldeb o ran sut mae myfyrwyr cynradd ac uwchradd yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi yn y brifysgol ac yn y lleoliad ysgol. |
| Addysg Athrawon | Dysgu proffesiynol | • Mae'r model partneriaeth yn golygu bod ysgolion partner arweiniol yn sefydliadau hyfforddiant ysgol gyfan rhanbarthol sy'n hwyluso datblygiad a chefnogaeth athrawon o ansawdd uchel ar draws eu clwstwr o ysgolion partneriaeth.<br>• Bydd ysgolion yn bartneriaid gweithredol mewn gweithgareddau seiliedig ar ymchwil, a byddant yn cymryd rhan lawn yn nodi meysydd o weithgaredd a chonsyrn proffesiynol ar gyfer ymholi, i gyfrannu at yr amcanion cyffredinol o wella ymarfer o fewn ysgolion ac o wella profiadau athrawon dan hyfforddiant. |
| Perthnasoedd Grym mewn Atebolrwydd | Cyfrifoldeb proffesiynol | • Yn sgil cyd-adeiladu'r rhaglen AGA, bydd ysgolion partner arweiniol wedi rhannu cyfrifoldeb am oruchwylio sicrhau ansawdd, rheoli, y broses recriwtio a dysgu proffesiynol ar gyfer eu rhanbarth hwb clwstwr.<br>• Mae'r pwyslais a'r dull o weithio mewn partneriaeth wedi arwain at amgylchedd o ymddiriedaeth a chydweithredu. |



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 128 14/05/2020 13:57

rhanddeiliaid, ond yn hytrach fel atebolrwydd sydd wedi'i wreiddio mewn democratiaeth gadarn a chydraddoldeb cryf. Yn eu geiriau nhw: 'the goal of teacher education is preparing teachers who know how to create democratic learning environments that enhance students' academic, social, and emotional learning and also [to] prepare them to participate in a complex, diverse, and divided democratic society' (Cochran-Smith *et al.*, 2018: 163). Mae gweithredu ein cwricwlwm newydd yn ceisio cyflawni hyn, ond bydd yn cymryd amser. O dderbyn bod ein system addysg bresennol wedi cael ei gyrru gan ddyheadau uchel, atebolrwydd allanol a systemau monitro (Connolly *et al.*, 2018), nid yw felly'n syndod i ganfod y paradeim atebolrwydd cryfaf yn dominyddu o fewn AGA. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn cydnabod symudiadau tuag at ymlacio rhai o'r mecanweithiau atebolrwydd allanol mewn meysydd eraill o'r system addysg yng Nghymru a gafodd eu cychwyn ar ôl 2010 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

O ganlyniad, yn ein hachos ni wrth lunio partneriaeth â rhaglen AGA newydd, rydym wedi cychwyn ar ein taith tuag at atebolrwydd democrataidd. Mae hyn yn fwy cymhleth nag y mae'n swnio, gan fod angen i unigolion newid yn ogystal â sefydliadau. Yn ein hachos penodol ni, rydym wedi cychwyn ar y gwaith o osod y sylfeini ar gyfer atebolrwydd democrataidd. Mae'r sylfeini hyn i'w gweld yn y tabl canlynol (gweler Tabl 1) wedi eu mapio yn erbyn agweddau ar atebolrwydd democrataidd mewn addysg athrawon fel sydd wedi eu nodi gan Cochran-Smith *et al.* (2018).

Mae'r agweddau uchod ar atebolrwydd democrataidd yn cael eu cyfleu ymhellach drwy ystyried cyfrifoldebau allweddol ysgolion Partner Arweiniol yn ogystal â rolau Tiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol a mentoriaid ysgolion partner. Mae'r rhain yn cael eu hamlinellu fel a ganlyn.

### *Ysgolion Partner Arweiniol*

- sefydlu diwylliant lle mae AGA yn cael ei derbyn a'i chyflwyno fel cyfrifoldeb craidd. Clustnodi uwch gydlynydd (UDRh – Uwch Dîm Rheoli mewn Ysgol Arweiniol a Phartner), yn cynnwys mentoriaid i gynnig dull ysgol gyfan i gefnogi athrawon dan hyfforddiant ac i annog bod yn agored i archwilio a thrafod addysgeg ac arferion asesu ysgol gyfan yng ngoleuni tystiolaeth ymchwil;
- goruchwylio sut mae Ysgolion Partner ar draws hwb y clwstwr yn



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 129 14/05/2020 13:57

ymgysylltu'n weithredol mewn gweithgaredd ymchwil, gan weithio'n gydweithredol gyda'r Brifysgol;
- dangos sut mae ymchwil yn arwain/dylanwadu ar eu hymarfer addysgu ar draws hwb y clwstwr;
- sicrhau bod AGA yn flaenoriaeth allweddol o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) a'r Cynllun Gwella Ysgol (CGY); i gael ffocws clir ar gyfer datblygiad ysgol gyfan AGA a bod gan yr holl aelodau staff a'r llywodraethwyr rolau allweddol fel rhanddeiliaid o ran cynnydd, monitro a sicrhau ansawdd;
- ymgorffori'r argymhellion sicrhau ansawdd misol yn y CDY a'r CGY gan ddangos tystiolaeth o ddadansoddi diagnostig a thargedau mesuradwy yn cysylltu'n uniongyrchol gysondeb a gwell ansawdd addysgu a dysgu o fewn pob ysgol sy'n rhan o'r AGA;
- darparu rôl ganolog i sicrhau bod dogfennau gwaith clir ar gael i'w defnyddio gan ysgolion partner, e.e. llawlyfr cwrs athrawon dan hyfforddiant;
- cefnogi mentora, goruchwylio, adborth adeiladol ac asesu i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn gallu bodloni'r holl safonau SAC yn ystod eu profiad ysgol;
- mewn partneriaeth gyda SAU, sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn derbyn cyfleoedd strwythuredig rheolaidd i adfyfyrio/dadansoddi eu profiad ysgol, tra'n tynnu hefyd ar wybodaeth broffesiynol yn cynnwys damcaniaeth ac ymchwil a thrwy hynny gyfosod astudiaeth academaidd ac ymarfer yn y dosbarth;
- cefnogi a chydgysylltu gyda SAU i sicrhau bod y bartneriaeth yn goruchwylio'n gyson pob agwedd ar brofiad ysgol y myfyrwyr;
- nodi a chyfrannu at anghenion athrawon a darparu hyfforddiant staff ac isadeiledd: strwythurau staffio, strategaethau datblygu staff, a diwylliant ysgolheigaidd i sicrhau bod pob aelod staff sydd wedi'i glustnodi ar gyfer darpariaeth AGA wedi ei harfogi i wneud y cyfraniadau hyn tuag at y rhaglen AGA.

## Mentoriaid Arweiniol

Mae'r Mentor Arweiniol wedi'i leoli yn yr Ysgol Bartner Arweiniol ac mae'n goruchwylio'r ddarpariaeth yn yr ysgolion ar gyfer y clwstwr. Mae dyletswyddau'n cynnwys:

- sicrhau bod Uwch Fentor ac Athro Fentoriaid wedi eu trefnu ar gyfer pob myfyriwr yn yr Ysgolion Partner;



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 130 14/05/2020 13:57

- gweithio gyda Thiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol i sicrhau bod pob mentor wedi'i hyfforddi;
- gweithio gyda Thiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol i sicrhau bod pob mentor wedi'i hyfforddi;
- gweithio gyda Thiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol ar sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a safonau ar draws y clwstwr;
- goruchwylio lles myfyrwyr yn y clwstwr.

**Uwch Fentoriaid**

Yr Uwch Fentor sy'n goruchwylio darpariaeth ar gyfer pob myfyriwr mewn un ysgol. Mewn ysgolion bach, wedi eu ffederaleiddio, efallai y bydd un Uwch Fentor yn gyfrifol am fwy nag un ysgol. Mae dyletswyddau'n cynnwys:

- cynllunio a chyflwyno'r Rhaglen Sefydlu mewn ysgolion i fyfyrwyr;
- cynllunio a sicrhau ansawdd y sesiynau Astudiaethau Proffesiynol yn yr ysgolion;
- arsylwi ar o leiaf un sesiwn addysgu ar y cyd gyda'r Athro Fentor;
- cwrdd â myfyrwyr unwaith yr wythnos i wirio cynnydd a lles;
- gweithio gyda'r Athro Fentor i asesu ymarfer proffesiynol myfyrwyr; a
- sicrhau ansawdd darpariaeth a safonau ar draws yr ysgol.

**Athro Fentoriaid**

Mae'r Athro Fentor yn gweithio gyda'r athro dan hyfforddiant o ddydd i ddydd ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r gefnogaeth addysgegol yn yr ysgol ar gyfer y pwnc/y cyfnod. Mae dyletswyddau'n cynnwys:

- cynllunio amserlen y myfyrwyr (gweler isod);
- sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at yr un adnoddau ag aelodau eraill y staff addysgu;
- adolygu a rhoi adborth ar gynlluniau gwersi'r myfyrwyr;
- sicrhau bod holl wersi'r myfyrwyr yn cael eu harsylwi a bod y myfyrwyr yn derbyn adborth amserol ac adeiladol – ar rai achlysuron, ac yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, gall hyn gael ei wneud gan aelodau o adran yn hytrach na'r Athro Fentor;
- cwrdd â'r myfyriwr am awr unwaith yr wythnos i adfyfyrio ar gynnydd yr wythnos, i osod targedau, ac i gwblhau'r cofnod asesu wythnosol.



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 131 14/05/2020 13:57

*Mentoriaid Iaith*

Mae'r Mentor Iaith yn gweithio gyda myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i gefnogi a datblygu eu sgiliau addysgu, paratoi adnoddau a marcio yn Gymraeg. Mae dyletswyddau'n cynnwys:

- adolygu a darparu adborth ar gynlluniau ac adnoddau;
- cwrdd â'r myfyriwr unwaith yr wythnos i fynd i'r afael ag anghenion unigol.

*Tiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol*

Mae'r Tiwtor Cyswllt yn gweithio'n agos gyda'r Ysgol Bartner Arweiniol i nodi cyfleoedd o fewn y clwstwr. Yn ystod Profiadau Ysgol 1 a 2, bydd y Tiwtor Cyswllt yn trefnu'r rhaglen o Arsylwadau Dysgu ar gyfer pob myfyriwr yn y clwstwr. Mae dyletswyddau pellach yn cynnwys:

- goruchwylio'r gwaith o asesu profiad ysgol y myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys:
  1. cydgysylltu gyda mentoriaid ysgol i sicrhau bod y rhaglen sydd wedi'i chynllunio yn galluogi'r myfyriwr i ddangos ei fod wedi bodloni'r Safonau Athro Cymwysedig (SAC);
  2. cydgysylltu gyda mentoriaid ysgol i fonitro cynnydd pob myfyriwr, i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn adborth priodol ac i weithio gyda mentoriaid i gynllunio unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen. Bydd Tiwtoriaid Cyswllt y Brifysgol a Mentoriaid yn cyd-arsylwi i gefnogi eu hasesiad o'r myfyriwr; fodd bynnag, ar gyfer y SAC bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu ar bob agwedd ar eu cyfraniad proffesiynol i'r ysgol yn unol â'r safonau;
  3. cydgysylltu â Mentoriaid i ddrafftio a chytuno ar yr adroddiad terfynol ar gyfer pob athro dan hyfforddiant ar PY1 a PY2 (yn cynnwys Cyfoethogi).

## *Athroniaeth Dysgu*

Mae wyth egwyddor yn ganolog i'r athroniaeth ar gyfer addysg athrawon sydd i'w gael o fewn Dysgu Aber+. Mae'r saith egwyddor cyntaf yn seiliedig yn fras ar yr egwyddorion a nodwyd gan Korthagen *et al.*, 2006). Mae pob un o'r wyth egwyddor yn cael eu hamlinellu drwy ystyried sut maent yn



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 132 14/05/2020 13:57

berthnasol i'r rhaglen AGA a Safonau Proffesiynol penodol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

**Egwyddor 1: Mae dysgu am addysgu'n cynnwys galwadau sy'n gwrthdaro ac yn cystadlu'n barhaus**

Mae dysgu am addysgu yn galw am ymgysylltiad gydag amrywiaeth o bobl, o ddysgwyr, o gefndiroedd, o amgylcheddau, o sefydliadau, ac mae'r ffactorau hyn yn creu tirwedd waith gymhleth a chystadleuol. Mae Opfer a Pedder (2011) yn nodi'r cymhlethdod hwn o amgylcheddau, a sut gallant ryngweithio'n wahanol ar adegau gwahanol, gyda phobl wahanol ac ar ddwyseddau gwahanol. Rhaid i'r athrawon dan hyfforddiant felly fod yn barod i ymdrin â'r dylanwadau hyn, a rhaid i'r ddarpariaeth hon eu gwneud yn agored i'r cymhlethdodau gan eu paratoi i addasu a rheoli amrywiaeth o amgylchiadau a sefyllfaoedd. Felly mae pwysigrwydd hanfodol i'r anogaeth fwriadol o wrthdaro gwybyddol ym meddylfryd yr athrawon dan hyfforddiant (Cobb *et al.*, 1990, dyfynnwyd yn Opfer a Pedder, 2011: 388) ond gall y berthynas ddwyochrog rhwng yr ysgol a'r brifysgol mewn model clinigol gyfrannu'n effeithiol tuag at gyd-greu gwybodaeth (McLean Davies *et al.*, 2015).

*Bydd y rhaglen AGA hon yn annog gwrthdaro gwybyddol drwy ddull addysgu integredig lle y bydd rhaid i athrawon dan hyfforddiant sefydlu a chyfiawnhau eu haddysgeg a'u hymarfer eu hunain yng ngoleuni addysgeg ac ymarfer o wahanol gyfnodau dysgu.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Cydweithredu

**Egwyddor 2: Mae dysgu am addysgu'n galw am olwg o wybodaeth fel pwnc i gael ei greu yn hytrach nac fel pwnc wedi ei greu**

Mae dysgwyr yn wneuthurwyr ystyr gweithredol sy'n adeiladu ystyr yn hytrach na'i dderbyn ac felly mae angen i gysylltiadau gael eu gwneud, cyd-destun ar gyfer dysgu a her i 'ecwilibriwm' y meddwl. Mae hyn yn seiliedig ar safbwynt lluniadaethol, Piagetaidd ond gan roi lle hefyd i'r safbwynt Vygotskyaidd o ddylanwad gweithgaredd a chyd-destun cymdeithasol (Moore, 2000). Mae integreiddio dysgu athrawon dan hyfforddiant ar draws y cyfnodau, a'u rhyngweithio bwriadol gyda chymheiriaid, mentoriaid a thiwtoriaid, yn darparu dad-gydbwysedd cyd-destunol, er mwyn eu galluogi nhw i sefydlu'n weithredol a chyfiawnhau eu dysgu eu hunain



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 133 14/05/2020 13:57

a'u safbwyntiau ar gyfer addysgu. Gall hyn gyfrannu'n ychwanegol at integreiddio ymarfer a dysgu proffesiynol (Conroy *et al*., 2013).

*Mae'r rhaglen AGA hon yn mynnu bod athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu'n unigol gyda chysyniadau a syniadau addysgegol bod rhaid iddynt sefydlu a chyfiawnhau safbwynt personol hyblyg ac ymatebol ar addysgu tra'n deall ac yn parchu barn ac anghenion pobl eraill.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Dysgu Proffesiynol

## Egwyddor 3: Mae dysgu am addysgu yn gofyn am newid mewn ffocws o'r cwricwlwm at y dysgwr

Mae Fullan (2011: 3) yn nodi, 'Gan ddechrau yn yr ystafell ddosbarth, y sylfaen yw ymarfer cyfarwyddiadol ynghlwm wrth gyflawniad myfyriwr' – ac mae'n galw hyn yn gysylltiad cyfarwyddyd-cyflawniad. Mae Hattie (2012) yn nodi bod y canlynol yn wir am ffyrdd o feddwl allweddol ar gyfer athrawon dylanwadol, sef eu bod yn 'credu mai eu tasg sylfaenol yw gwerthuso effaith eu haddysgu ar ddysgu a chyflawniad myfyrwyr' (Hattie, 2012: 182) a'u bod 'eisiau siarad mwy am y dysgu na'r addysgu' (185). Rhaid i'r ffocws yma felly fod ar sicrhau bod ffocws yr athro dan hyfforddiant yn aros yn gadarn ar y dysgwyr a'u llwyddiant a'u cynnydd. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn tanseilio'r angen am wybodaeth o gynnwys addysgegol ond mae'n darparu ffocws clir ar gyfer cymhwyso.

*Mae'r rhaglen AGA hon yn rhoi pwyslais arbennig ar le canolog cynnydd dysgwyr fel mesur o addysgu effeithiol gydag arbenigeddau pwnc a chyfnod wedi eu sefydlu ond yn tynnu ar egwyddorion addysgu effeithiol sydd i'w canfod ar draws cyfnodau a meysydd pwnc.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Arloesedd

## Egwyddor 4: Mae dysgu am addysgu yn cael ei wella drwy ymchwil athro (dan hyfforddiant)

Mae datblygu a gwella addysgu a dysgu yn ei hanfod yn seiliedig ar weithredu ac adfyfyrio (Bartlett a Leask, 2009) a dyma sy'n sail i ymchwil



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 134 14/05/2020 13:57

athrawon. Mae peth consensws fod ymchwil mewn lleoliadau addysgol yn gyfrannwr hanfodol tuag at ddatblygu ymarfer a pholisi (Curtis a Pettigrew, 2010) er bod angen i'r athro dan hyfforddiant ddeall natur gyfyngedig gwaith ymchwil gweithredol a'r potensial i feirniadu ymchwil o'r fath o safbwynt 'dilysrwydd, hygrededd a thriongliant' (Curtis a Pettigrew, 2010: 57). Mae angen 'pontio'r bwlch rhwng gwybodaeth ymchwil wedi'i godio a gwybodaeth "grefft" gyffredinol athrawon' Wilson, 2013: 3) ac felly mae'n hanfodol bod athrawon dan hyfforddiant yn cael yr arfau a'r cyfleoedd i astudio ac ymgysylltu gydag ymchwil athrawon. Mae'r cyfle i gydweithredu ac i ystyried materion dilys o fewn model clinigol yn gwella rhyngweithio seiliedig ar ymchwil (Conroy *et al.*, 2013).

*Mae'r rhaglen AGA hon yn enghreifftio ymarfer gwybodus tra yn mynnu bod athrawon dan hyfforddiant wedi eu harfogi i ymgysylltu ag ymchwil a'u bod yn ymroddedig i hysbysu eu hymarfer ar sail tystiolaeth ymchwil gadarn.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Dysgu Proffesiynol, Arloesedd

### Egwyddor 5: Mae dysgu am addysgu yn galw am bwyslais ar y rhai sy'n dysgu i addysgu gan weithio'n agos gyda'u cymheiriaid

Mae rhaglen integredig yn mynnu bod athrawon dan hyfforddiant, tiwtoriaid a mentoriaid ar draws cyfnodau a meysydd pwnc yn cydweithio ac yn cydweithredu. Mae damcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol Vygotsky yn nodi'r dylanwad cymdeithasol a diwylliannol ar ddatblygiad dysgwr a thrwy berthnasoedd, cysylltiadau a rhyngweithiadau gall dysgwyr 'gydweithredu tuag at nod cyffredin' (Gray a MacBlain, 2012: 71). Yn gysylltiedig â'r cysyniad hwn, mae Hattie (2012: 73) yn nodi 'grym athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn beirniadu eu cynllunio', fel deilliant cryf o'r ymchwil Dysgu Gweladwy, ac felly mae'n rhaid i gydweithredu clos athrawon dan hyfforddiant gyda'u cymheiriaid, eu mentoriaid, staff ysgolion a thiwtoriaid fod yn agwedd graidd ar y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gellir addysgu'n llwyddiannus.

*Mae'r rhaglen AGA hon yn sefydlu egwyddorion a dulliau cydweithio a chydweithredu ar draws cyfnodau a meysydd pwnc a fydd yn ffurfio sylfaen ymarfer y dyfodol.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Cydweithredu, Arweinyddiaeth

### Egwyddor 6: Mae dysgu am addysgu yn galw am berthnasoedd ystyrlon rhwng ysgolion, prifysgolion ac athrawon dan hyfforddiant

Mae tystiolaeth glir ynghylch y berthynas hanfodol rhwng y sefydliadau partner a'r athrawon dan hyfforddiant, gan fod ganddi'r potensial i gael dylanwad mawr ar ymarfer mewn ysgolion yn ogystal ag yng nghynnwys cyrsiau a ddysgir, ac mae gosod staff y brifysgol o fewn ysgolion yn cyfrannu at hyn (Darling-Hammond, 2013). Mae Zeichner (2010) yn cadarnhau bod athrawon dan hyfforddiant yn fwy abl i gael eu hyfforddi'n llwyddiannus os oes cydweithredu gofalus a mentora rhwng partneriaid ysgolion a'r brifysgol. Lle mae'r rhwydwaith o rolau pobl broffesiynol wedi cael ei diffinio'n glir ac yn eglur mewn partneriaeth, yna mae'r diffyg cyswllt rhwng y brifysgol ac ysgolion yn cael ei leihau ac arfer gorau'n digwydd (Allsop, 1994). Am y rheswm hwn, mae perthnasoedd partneriaeth cryf ac agos yn agwedd hanfodol ar y ddarpariaeth hon ac mae mabwysiadu ymagwedd glinigol yn galluogi ymgysylltu gwerthfawr â chymheiriaid ar gyfer athrawon dan hyfforddiant (Conroy *et al*., 2013) a daw ag eglurder dealltwriaeth i'r grefft o addysgu (McLean Davies *et al*., 2015).

> *Mae'r rhaglen AGA hon wedi ei chreu a'i chynnal mewn partneriaeth rhwng yr ysgolion partner a'r brifysgol, gan arwain at integreiddio di-dor o brofiadau dysgu y cytunwyd arnynt drwy'r ddarpariaeth hyfforddi gyfan.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Cydweithredu, Dysgu Proffesiynol

### Egwyddor 7: Mae dysgu am addysgu'n cael ei wella pan fydd y dulliau dysgu ac addysgu sy'n cael eu hargymell yn y rhaglen yn cael eu modelu gan yr athrawon sy'n addysgu yn eu hymarfer eu hunain

Oherwydd natur amlweddog addysgu a'r amrywiaeth yn yr amgylchedd dysgu, mae Boyd *et al.* (2011) yn nodi'r angen i addysgwyr athrawon ddatblygu modelu fel dull o fewn eu haddysgu, sy'n cynnwys y defnydd ymarferol o ddulliau a gweithdrefnau gyda'r athrawon dan hyfforddiant yn



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 136 14/05/2020 13:57

hytrach na throsglwyddo gwybodaeth yn unig. Mae hyn yn darparu gwell cyfleoedd i ymgysylltu â'r rhesymwaith, y cyfiawnhad, y broses o feddwl a'r teimladau sy'n cyflenwi'r arferion (Loughran a Berry, 2005). Mae modelu felly'n cynnig dulliau o wella'r ddealltwriaeth o brofiadau drwy ddatgymalu'r broses addysgu, drwy bwysleisio cymhlethdodau addysgu, drwy gydnabod y gwahaniaethau rhwng bwriad addysgu ac ymddygiadau dysgu gwirioneddol a darparu cyfleoedd ar gyfer addysgu cydweithredol sy'n agor posibiliadau newydd (Loughran a Berry, 2005).

*Mae'r rhaglen AGA hon yn enghreifftio ymarfer gorau yn y ddarpariaeth ar draws y flwyddyn gyfan gyda thiwtoriaid cyswllt y brifysgol yn cael eu cadw ar flaen y gad gydag addysgeg drwy eu hymgysylltiad agos ag ysgolion y bartneriaeth.*

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Proffesiynol Dysgu, Arloesedd, Arweinyddiaeth

## Egwyddor 8: Mae dysgu am addysgu'n cael ei feithrin a'i wella drwy gyfrwng proses adfyfyrio dwfn rhwng cymheiriaid, mentoriaid a thiwtoriaid

Mae Schön (1983) wedi dwyn sylw at y cysyniad o'r ymarferydd adfyfyriol, fel gweithiwr proffesiynol yn ymgysylltu â'i waith neu amgylchedd gwaith gan addasu arferion. Mae hwn yn gysyniad hanfodol i athrawon dan hyfforddiant i'w sefydlu ar gychwyn eu gyrfaoedd, gan ffurfio felly eu meddylfryd i'r dyfodol. Mae Zwozdiak-Myers (2009) wedi nodi gwahanol ddimensiynau ymarfer adfyfyriol yng nghyd-destun addysgu, a gellir defnyddio'r rhain i ddeall a datblygu ymarfer. Mae sefydlu arfer da yn hyn o beth yn hanfodol, gan yr awgrymwyd y gall amgylchedd yr ystafell ddosbarth gael effaith sy'n llesteirio creadigrwydd a newid dros amser (Putnam a Borko, 2000). O ganlyniad, mae'r model 'lleoliad clinigol', lle mae tiwtoriaid yn cael eu gosod o fewn clystyrau ysgol, yn dod yn elfen hanfodol ar gyfer hwyluso adfyfyrio, newid, maethu a datblygu (Conroy *et al.*, 2013). Mae presenoldeb lleol tiwtoriaid o'r brifysgol yn mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod adfyfyrio yn bwrpasol ac yn effeithiol heb droi'n gyfiawnhad arwynebol o weithgaredd ac ymarfer (Hattie, 2012) a gall, yn wir, gyfrannu at ddatblygiad adfyfyriol mentoriaid a thiwtoriaid yn ogystal ag athrawon dan hyfforddiant (McLean Davies *et al.*, 2015).

*Mae'r rhaglen AGA hon yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer adfyfyrio, gan sefydlu amser a dulliau i alluogi rhyngweithio adfyfyriol gan bob athro dan hyfforddiant, tiwtor a mentor.*



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 137 14/05/2020 13:57

***Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth:*** Addysgeg, Cydweithredu, Arweinyddiaeth

## *Casgliad*

Mae gweithio cynhwysol mewn partneriaeth fel y cyfeiriwyd ato yn y papur hwn wedi bod yn rhan annatod o gyd-adeiladu ein rhaglen AGA, ac heb ymddiriedaeth ac egwyddorion cytûn ar gyfer cydweithredu ni fyddem wedi cyflawni'r hyn a wnaethom. Mae'r rhaglen AGA integredig sy'n gofyn i athrawon dan hyfforddiant ddysgu ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn ailgysyniadu addysg athrawon ac mae'n unigryw. I rai, gall hyn ymddangos yn heriol ac yn gam yn rhy bell ond mewn gwirionedd bydd y rhaglen yn paratoi athrawon dan hyfforddiant yn well ar gyfer y proffesiwn ac yn fwy fyth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2020. Wrth fynd i'r afael ag atebolrwydd, rydym wedi cymryd camau cadarnhaol yn ail-alinio atebolrwydd o fewn ein partneriaeth AGA i fod yn fwy democrataidd, gan geisio adeiladu teimlad o 'atebolrwydd mewnol' sy'n seiliedig ar gyfrifoldeb torfol, ymgynghoriad ac ymdrech gyffredin. (Fullan *et al.*, 2015). Ac eto mae Cochran-Smith *et al.* (2018) yn ein hatgoffa fod atebolrwydd democrataidd gwirioneddol yn gweithredu ar 'berthynas gynhyrchiol a dwyochrog rhwng atebolrwydd mewnol ac allanol' (Cochran-Smith *et al.*, 2018: 167). Bydd llwyddiant a chynaliadwyedd atebolrwydd democrataidd o fewn addysg athrawon yn y dyfodol felly yn dibynnu'n fawr ar system gefnogol ac ymochrol o atebolrwydd allanol sy'n rhoi i bartneriaethau ddigon o le i adeiladu atebolrwydd mewnol effeithiol sy'n cael ei 'berchenogi' gan ei randdeiliaid. Dadleuwn fod rhaid i systemau o atebolrwydd allanol – o fewn AGA a thu hwnt – greu a chynnal yr amodau ar gyfer datblygu atebolrwydd mewnol democrataidd a chryf o fewn partneriaethau ond rhaid hefyd, i'r gwrthwyneb, osgoi'r paradocs o geisio deddfu a rheoli eu datblygiad. Os yw atebolrwydd yn parhau i gael ei weld fel atebolrwydd allanol dyhead-uchel, yna bydd y model atebolrwydd democrataidd mewnol rhanbarthol yn cael ei fygu a'i gyfyngu. Dyma'r amser i gyrff proffesiynol yng Nghymru megis Llywodraeth Cymru, Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg weithio gyda darparwyr partneriaethau AGA ac USCET Cymru i greu gweithio mewn partneriaeth democrataidd ar y lefel genedlaethol.



06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 138 14/05/2020 13:57

## *Cyfeiriadau*

Allsop, T. (1994). 'The language of Partnership' yn M. Wilkin a D. Sankey (goln), *Collaboration and Transition in Initial Teacher Training.* London: Kogan Page.

Bartlett, S. a Leask, M. (2009). 'Improving your teaching – an introduction to practitioner research, reflective practice and evidence-informed practice' yn S. Capel, M. Leask, a T. Turner (goln), *Learning to Teach in the Secondary School.* London: Routledge.

BERA, 2014). *Research and the Teaching Profession: Building the Capacity for a Self-Improving Education System: Final Report of the BERA–RSA Inquiry into the Role of Research in Teacher Education* London: British Educational Research Association.

Boyd, P., Harris, K. a Murray, J. (2011). *Becoming a Teacher Educator: guidelines for induction*. Higher Education Academy: Education Subject Centre.

Cann, R.O., Thomas, M. a Jephcote, M. (2011). 'The Challenges and Benefits Presented by Partnerships within Rural Education in Wales'. *Welsh Journal of Education*, 15/1, 80–90.

Cochran-Smith, M., Carney M. C., Keefe, E. S., Burton, S., Chang, W., Fernandez, M. B., Miller, A. F., Sanchez, J. G., a Baker, M. (2018). *Reclaiming Accountability in Teacher Education.* Efrog Newydd: Teachers College Press.

Connolly, M., Milton, E., Davies, A. J. a Barrance, R. (2018). 'Turning Heads: the impact of political reform on the professional role, identity and recruitment of head teachers in Wales'. *British Educational Research Journal*, 44 (4) 608–25.

Conroy, J., Donaldson, G. a Menter, I. (2014). 'Work-based learning in teacher education: a Scottish perspective' yn O. McNamara, J. Murray ac M. Jones (goln), *Work-based Learning in Teacher Education: international practice and policy.* Series: Professional learning and development in schools and higher education. London: Springer, 207–19.

Conroy, J., Hulme, M. a Menter, I. (2013) 'Developing a Clinical Model for Teacher Education'. *Journal of Education for Teaching: International research and pedagogy*, 39 (5), 557–73.

Curtis, W. a Pettigrew, A. (2010). *Education Studies: Reflective Reader.* Exeter: Learning Matters.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018). *Explanatory Memorandum: The Education (Amendments Relating to Teacher Assessment Information) (Wales) Regulations 2018.* Gw. http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11633-em/sub-ld 11633-em-e.pdf (cyrchwyd 1 Awst 2019).

Darling-Hammond, L. (2013). 'Developing and sustaining a high-quality teaching force'. Gw. *https://asiasociety.org/files /gcen-darlinghammond.pdf* (cyrchwyd 8 Chwefror 2019).

Department for Education (1992). *Circular 9/92. Initial Teacher Training (Secondary Phase).* London: Department for Education.

Evans, W. G. (1992). *Fit To Educate? A Century of Teacher Education and Training.* Aberystwyth: Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Fullan, M. (2011). *Learning is the work*. Gw. https://michaelfullan.ca / wp-content/ uploads/2016/06/13396087260.pdf (cyrchwyd 8 Chwefror 2019).

Fullan, M., Rincón-Gallardo S. a Hargreaves A. (2015). 'Professional capital as accountability', *Education Policy Analysis Archives,* 23 (15), 1–18.

Gray, C. a MacBlain, S. (2012). *Learning Theories in Childhood.* London: Sage Publications.

Hattie, J. (2012). *Visible Learning for Teachers – Maximising Impact on Learning.* London: Routledge.

James, M. a Pollard, A. J. (goln) (2012). *Principles for Effective Pedagogy: International responses to the evidence from the UK Teaching & Learning Research Programme*. Abingdon: Routledge.

James, M. a Pollard, A. J. (2011). 'TLRP's ten principles for effective pedagogy: rationale, development, evidence, argument and impact'. *Research Papers in Education*, 26 (3), 275–328.

Korthagen, F., Loughran, J. a Russell, T. (2006). 'Developing fundamental principles for teacher education programs and practices', *Teaching and Teacher Education,* 22, 1020–41.

Loughran, J. a Berry, A. (2005). 'Modelling by teacher educators'. *Teaching and Teacher Education*, 21 (2), 193–203.

Llywodraeth Cymru (2017). *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Addysgu athrawon yfory.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018a). *Cyflwyniad i'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018b). *Dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019). *Y Cwricwlwm drafft i Gymru 2022. Canllawiau Statudol Drafft – Canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2022.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

McLean Davies, L., Dickson, B., Rickards, F., Dinham, S., Conroy, J. a Davis, R. (2015). 'Teaching as a clinical profession: translational practices in initial teacher education – an international perspective'. *Journal of Education for Teaching*, 41 (5), 514–528.

Moore, A., (2000). *Teaching and Learning – pedagogy, curriculum and culture.* London: Routledge Falmer.

Nind, M. a Lewthwaite, S. (2015). *Principles for effective pedagogy – NCRM quick start guide*. Manual. NCRM.

OECD (2018). *Developing Schools as Learning Organisations in Wales. Implementing Education Policies*. Paris: OECD Publishing.

Opfer, V. D. a Pedder, D. (2011). 'Conceptualizing Teacher Professional Learning'. *Review of Educational* Research, 81 (3), 376–407.




06 Thomas WJE 22/1 (Welsh).indd 140 14/05/2020 13:57

Putnam, R. a Borko, H. (2000). 'What Do New Views of Knowledge and Thinking Have to Say About Research on Teacher Learning?'. *Educational Researcher*, 29 (1), 4–15.

Schön, D. (1983). *The Reflective Practitioner.* Abingdon: Routledge.

Siraj, I. a Taggart, B. gyda Melhuish, E., Sammons, P. a Sylva, K. (2014). *Exploring Effective Pedagogy in Primary Schools: Evidence from Research*. London: Pearson.

Sutherland, R., Yee, W. C., McNess, E. a Harris, R. (2010). *Supporting learning in the transition from primary to secondary schools*. Bristol: University of Bristol. Gw. http://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/education/migrated/documents/transition-bristoluniversity.pdf (cyrchwyd 8 Chwefror 2019).

Thomas, M., Brake, P., Cann, R., Evans, A., Hagen, G., Morgan, D. W., Neil, M., Pester, S., Woods, M., Jephcote, M. a Taylor, C. (2009). 'Partnerships in Rural Education: Identification of Research Themes'. *Welsh Journal of Education*, 14, 144–9.

Wellcome Trust (2009). 'Perspectives on Education: Primary-Secondary Transfer in Science', Issue 2, Spring 2009.

Wilson, E. (gol.) (2013). *School-based Research – A guide for education students*. London: Sage Publications.

Zeichner, K. (2009). 'Rethinking the Connections Between Campus Courses and Field Experiences in College-and University-Based Teacher Education'. *Journal of Teacher Education*, 61 (1–2), 89–99.

Zwozdiak- Myers, P. (2009). 'An analysis of the concept reflective practice and an investigation into the development of student teachers' reflective practice within the context of action research', London: Brunel University. Traethawd PhD.

## *Nodiadau*

1 Roedd Foster Watson yn olynydd i Henry Holman fel Meistr Dull ac Athro Addysg [1894–1913]. Sefydlodd yr astudiaeth o Addysg fel pwnc teilwng i israddedigion ac o 1896–7 cafodd ei addysgu fel pwnc Prifysgol israddedig yn Aberystwyth, ac arweiniodd hyn at gyflwyno gradd Anrhydedd o 1913–14. Cafodd yr Adran Hyfforddiant Dydd ei sefydlu i hyfforddi athrawon ar gyfer ysgolion elfennol ac o 1894 hysbysebodd y Coleg yr Adran Hyfforddi Athrawon ar gyfer Ysgolion Uwchradd. Pwysleisiodd Watson bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ar gyfer pob athro. Credai y dylid canfod ffordd i chwalu'r rhwystr rhwng yr athro cynradd a'r athro uwchradd – gweledigaeth sy'n ganolog i'n rhaglen AGA integredig newydd heddiw. Foster Watson oedd y cyntaf i dderbyn y teitl o Athro Emeritws gan Gyngor Aberystwyth yn dilyn ei ymddeoliad.